**Prifysgol Bangor**

**PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH**

**Dyddiad:** 13 Mai 2022

**Presennol:** Yr Athro Gareth Roberts (Cadeirydd), Miss Suzanne Barnes, Mrs Tracy Hibbert, Mr Gareth W. Jones, Dr John Latchford, Dr Kevin Mundy, Mrs Rachel Parry, Miss Emma Riches, Dr Huw Roberts, Yr Athro Jean White, Mr Aron Williams, Mr Merf Williams, Mr Paul Wood a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd)

**Ymddiheuriadau** Dr David Assinder, Mr Alan Jones, Mr Wayne Jones, Ms Jan Roberts, Dr Gary Robinson, Ms Mair Rowlands, yr Athro Paul Spencer a Mr Lars Wiegand

*Cynhaliwyd y pwyllgor trwy Microsoft Teams*

**617 Croeso**

Croesawyd yr Athro Jean White a Mr Paul Wood i'w cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor. Nodwyd bod Mrs Gwenan Hine yn cymryd yr awenau fel Ysgrifennydd y Pwyllgor, a diolchwyd i Miss Suzanne Barnes am gymryd y cofnodion yn flaenorol.

**618 Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**Cytunwyd** Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 29 Hydref 2021. Nodwyd y bu bwlch hwy nag arfer rhwng cyfarfodydd oherwydd y newid yn yr ysgrifenyddiaeth, ond y byddai'r Pwyllgor wrth symud ymlaen yn cynnal tri chyfarfod y flwyddyn academaidd.

**619 Materion yn Codi**

**Nodwyd** Nid oedd materion yn codi nad oeddent ar yr agenda.

**620 Adroddiad gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau**

**Derbyniwyd** Cofnodion cyfarfodydd y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau a gynhaliwyd 16 Rhagfyr 2021, 6 Ionawr 2022, 17 Chwefror 2022, 17 Mawrth 2022 a 18 Ebrill 2022 gan Dr Mundy.

**Nodwyd** Cyflwynodd KM gofnodion cyfarfodydd y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2021 ac Ebrill 2022. Nodwyd bod y Grŵp wedi cyfarfod yn fisol trwy gydol cyfnod y pandemig ond y byddai o bosib yn cwrdd yn llai aml wrth symud ymlaen. Roedd y Grŵp wedi monitro'r sefyllfa Covid-19 yn y Brifysgol, wedi ystyried y sefyllfa leol, ac wedi ymateb i newidiadau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru dros y misoedd diwethaf. Tynnodd Dr Mundy sylw'r Pwyllgor yn benodol at yr eitemau canlynol:

- Roedd y Grŵp Tasg wedi goruchwylio diweddariad rheolaidd Asesiad Risg Covid-19 y Brifysgol;
- Ystyriwyd newidiadau i ofynion a chanllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru ym mhob cyfarfod;

- Roedd y Grŵp wedi ystyried yn rheolaidd drefniadau gweithio deinamig y Brifysgol;
- Roedd cyfraddau achosion yn y Brifysgol, ac yn y rhanbarth lleol wed cael eu monitro; ac
- Yn y cyfarfod ym mis Ebrill roedd y Grŵp wedi cytuno i wneud y canlynol (o 28 Mai ymlaen):
    - Adolygu uchafswm capasiti ystafelloedd;
    - Dechrau tynnu sgriniau persbecs a oedd wedi'u gosod dros dro, ac ystyried cynnig sgriniau symudol dros dro i staff os oes ganddynt bryderon;
    - Tynnu arwyddion cyffredinol Covid-19 oddi ar waliau a lloriau, gan ddefnyddio sgriniau gwybodaeth yr adeiladau i atgoffa unigolion o'r camau rheoli sy'n dal mewn grym;
    - Cysylltu â defnyddwyr adeiladau allweddol i ganfod pa fesurau rheoli Covid-19 a oedd yn llwyddiannus ac y gellid eu parhau;
    - Diwygio'r naratif ynglŷn â gorchuddion wyneb i amlygu y dylai unigolion deimlo y gallent wisgo gorchuddion wyneb lle bynnag y bônt yn teimlo bod hynny'n briodol;
    - Dileu cyfyngiadau ar swyddfeydd sy'n cael eu rhannu;
    - Dros yr haf, asesu ystafelloedd addysgu ac ystafelloedd seminar, ac adolygu'r capasiti lle bo'n briodol;
    - Argymell bod staff yn cael eu hannog i beidio â defnyddio swyddfeydd staff ar gyfer tiwtorialau;
    - Cynnwys negeseuon Covid-19 a negeseuon iechyd cyhoeddus cyffredinol mewn sgyrsiau iechyd a diogelwch neuaddau a cholegau i fyfyrwyr newydd;
    - Datblygu protocolau Covid-19 newydd ar gyfer gweithgareddau / ymchwil yng nghyswllt gweithgareddau risg uwch; a
    - Datblygu'r Asesiad Risg Coronafeirws presennol yn asesiad risg iechyd y cyhoedd mwy cyffredinol yn y gweithle.

Yn ogystal â goruchwylio trefniadau mewn perthynas â phandemig Covid-19 roedd y Grŵp Tasg wedi cynnal adolygiadau o bolisïau iechyd a diogelwch yn ymwneud â defnyddio dronau a defnyddio systemau gwasgedd yn ddiogel. Nododd y Pwyllgor hefyd fod y Grŵp Tasg wedi cael gwybod am ddamwain y bu bron iddi â digwydd yn ymwneud â Choleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg, y cyfeirir ato yng nghofnod 623 isod.

Croesawodd yr Athro White y sicrwydd a roddwyd yng nghofnodion y Grŵp Tasg a ddangosai fod y Brifysgol wedi ystyried iechyd a diogelwch staff a myfyrwyr yn ofalus trwy gydol cyfnod y pandemig. Yn dilyn cwestiwn gan yr Athro White yn ymwneud â lles staff, ac effaith y pandemig ar iechyd meddwl staff, rhoddodd Mrs Hibbert sicrwydd i'r Pwyllgor fod gwaith parhaus wedi cael ei wneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf i ddarparu sesiynau hyfforddi a gweithdai ac i roi arweiniad i'r holl staff a rheolwyr ar ystod eang o faterion (a ddarparwyd hefyd gan Wasanaethau Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr i fyfyrwyr). Roedd yr Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol hefyd wedi sicrhau bod yr aelodau hynny o staff a oedd angen cefnogaeth bellach yn derbyn cymorth fesul achos. Nododd Dr Mundy hefyd fod y Brifysgol wedi darparu cyfleoedd i staff a oedd yn profi unigrwydd yn ystod y pandemig i gael y dewis o weithio yn y Brifysgol ac i gwrdd â chydweithwyr mewn amgylchedd diogel, ac ategwyd hynny gan Dr Latchford a Dr Roberts.

**621** **Adolygiad: Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch**

**Derbyniwyd** Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch, gan Mr G W Jones

**Nodwyd** Dywedodd Mr G. W. Jones wrth y Pwyllgor y dylasai Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol gael ei adolygu fel rheol gan y Pwyllgor bob tair blynedd, a'i bod yn bryd cynnal adolygiad ffurfiol yn awr, gan fod y datganiad presennol wedi dod i rym o 1 Mawrth 2019. Atgoffwyd y Pwyllgor fod gwelliant wedi cael ei wneud i'r datganiad polisi yn 2021 gan ychwanegu eitem xvii yn ymwneud â systemau ar gyfer rheoli risg pandemig / epidemig. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a oedd unrhyw agweddau ar y Datganiad Polisi a oedd angen eu diwygio ar hyn o bryd. Nodwyd bod y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau eisoes wedi ystyried y Datganiad Polisi ac nid oedd unrhyw newidiadau wedi'u hargymell.

Gofynnodd yr Athro White am wybodaeth bellach am y trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer myfyrwyr o dan 18 oed a chadarnhaodd Mr G. W. Jones fod dogfen ar wahân, yn amlinellu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch sefydliadol y Brifysgol, yn cynnwys adran am rai dan 18 oed, plant ac oedolion a oedd mewn perygl.

**Argymhellwyd** Yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth ddyledus **argymhellodd** y Pwyllgor fod y Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf Cyngor y Brifysgol i'w gymeradwyo.

**622** **Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch**

**Derbyniwyd** Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2020/21, gan Mr G W Jones

**Nodwyd** Cyflwynodd Mr G W Jones Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2020/21. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr Adroddiad Blynyddol yn ymwneud â chyfnod yr effeithiwyd arno'n gyfan gwbl gan bandemig Covid-19, a arweiniodd at ostyngiad sylweddol mewn gweithgarwch ar y safle. Nodwyd na lwyddwyd i fodloni nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol yn ystod y flwyddyn yn sgil y pandemig, a bod gweithgareddau megis hyfforddiant ac archwiliadau nad oeddynt wed cael eu cwblhau am nad oedd staff ar y campws yn cael eu cynnal yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22:

- Ym mlwyddyn academaidd 2020/21 roedd cyfanswm yr achosion Covid-19 yr adroddwyd amdanynt yn y Brifysgol yn 429, 63 ohonynt yn achosion ymysg staff a 356 yn achosion ymysg myfyrwyr.
- Roedd y Brifysgol wedi gweithio'n agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyflwyno cyfleuster profion PCR i fyfyrwyr ar y safle.
- Roedd rhaglen AP-Covid mewnol y Brifysgol a'r trefniadau gweinyddol ynglŷn â'i ddefnyddio wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac wedi galluogi trefniadau rhanbarthol Profi, Olrhain a Diogelu i weithio'n agos gyda'r Brifysgol;
- Roedd archwiliad mewnol ar weithio gartref a dychwelyd i'r campws wedi cynnig sicrwydd bod trefniadau addas ar waith.
- Effeithiwyd ar ddarpariaeth hyfforddiant iechyd a diogelwch yn ystod y pandemig, gyda gostyngiad yn nifer y sesiynau hyfforddi a rhai ohonynt yn peidio â chael eu cynnal oherwydd cyswllt agos a chyfyngiadau Covid-19 eraill;

- Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn y Brifysgol yn 2020/21, ac ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliadau.
- Cafwyd presenoldeb o 73.5% o aelodau staff newydd mewn sesiynau cynefino staff, a oedd 16.5% yn is na'r targed;
- Cwblhaodd 75.2% o aelodau staff hyfforddiant defnyddwyr cyfrifiaduron a hunanasesiad, a oedd 9.8% yn is na'r targed;
- Bu 9.6 o ddamweiniau ac anafiadau fesul 1000 o weithwyr. Roedd hyn ychydig yn is na chyfartaledd y sector, sef 9.87 o ddamweiniau fesul 1000 o weithwyr. Ni chafwyd unrhyw anafiadau mawr yn ystod 2020/21;
- Yn ystod 2020/21 cafwyd dwy Ddamwain a Digwyddiad Adroddadwy i'r Pwyllgor Gweithredu Iechyd a Diogelwch (RIDDOR). Roedd un yn ymwneud â myfyriwr a gafodd drychiad bys, ac un yn ymwneud ag aelod staff a gafodd gnoc i'w pen gan wrthrych a ddisgynnodd;
- Y gyfradd absenoldeb salwch staff oedd 3.87 diwrnod coll fesul cyflogai CALl a oedd 0.53 diwrnod yn is na'r sector Addysg Uwch am yr un cyfnod;
- Ni nodwyd unrhyw ganlyniadau a gafodd effaith niweidiol ar iechyd yn ymwneud â gwaith yn ystod gwaith gwyliadwriaeth iechyd yn ystod 2020/21;
- Cafodd larymau tân eu hactifadu 98 o weithiau yn ystod 2020/21, a oedd yn gynnydd o 34% ar ffigwr 2019/20. Daeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r Brifysgol 22 o weithiau, roedd 21 o'r achosion hynny mewn neuaddau preswyl rhwng 8pm a 8am; a
- Bu un hawliad Atebolrwydd Cyflogwr yn ystod y cyfnod yn ymwneud â'r anaf i aelod staff drwy gnoc i'w pen o ganlyniad i wrthrych yn disgyn.

Yn dilyn cwestiwn gan yr Athro White, cadarnhaodd Mr G W Jones nad oedd gan y Brifysgol unrhyw gladin cyfansawdd alwminiwm ar ei hadeiladau. Nodwyd hefyd fod gan y Brifysgol systemau ysgeintio dŵr mewn 600 o ystafelloedd gwely neuaddau preswyl ar hyn o bryd, gyda gwaith wedi'i gynllunio dros yr haf i osod mwy o ysgeintellau mewn ystafelloedd gwely.

**Cymeradwywyd** Yn dilyn trafodaeth **cymeradwywyd** Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch i'w gyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod nesaf. Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm iechyd a diogelwch cyfan am eu gwaith caled dros y cyfnod hwn.

**623 Damweiniau, Digwyddiadau ac Achosion Arwyddocaol**

**Derbyniwyd** Adroddiad ar Ddamweiniau, Digwyddiadau ac Achosion Arwyddocaol yn ystod y flwyddyn, Awst 2021 – Ionawr 2022, gan Mr G W Jones

**Nodwyd** Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr Adroddiad ar Ddamweiniau, Digwyddiadau ac Achosion Arwyddocaol yn ystod y flwyddyn, a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Cyngor.

Yn ogystal, rhoddodd Mr G W Jones wybodaeth bellach i'r Pwyllgor am ddamwain y bu bron iddi â digwydd a allasai fod wedi achosi anaf difrifol. Adroddwyd bod y digwyddiad yn ymwneud â defnyddio hydoddydd anweddol o fewn llestr dan bwysedd a methiant dilynol y llestr hwnnw a allasai fod wedi arwain, mewn gwahanol amgylchiadau, at anaf difrifol i unrhyw un oedd yn sefyll gerllaw. Nodwyd bod methiant ymddangosiadol i ystyried yn llawn effaith newid cemegion (ar gyfer glanhau cemegol) a'r risgiau posibl ychwanegol o atomeiddio hydoddyddion anweddol wedi arwain at ddamwain y bu bron iddi â digwydd. Yn dilyn ystyriaeth drylwyr o'r

digwyddiad, penderfynwyd atgoffa'r holl Golegau a Gwasanaethau o'r angen i adolygu eu hasesiadau risg, i amlygu'n benodol yr angen i ystyried materion ehangach nad ydynt o bosib wedi cael eu gwerthuso, ac ystyried goruchwyliaeth ac arolygiaeth yng ngoleuni Gweithio Dynamig a'r gostyngiad yn nifer y staff ar y safle.

**624 Adroddiadau gan Is-bwyllgorau**

**Derbyniwyd** Cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydredd a gynhaliwyd 24 Ionawr 2022 a chofnodion yr Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol a gynhaliwyd 24 Ionawr 2022

**Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydredd**

**Nodwyd** Nododd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydredd a gynhaliwyd 24 Ionawr 2022. Tynnwyd sylw'r aelodau yn benodol at y pwyntiau canlynol:

- Roedd gwaith yn mynd rhagddo i baratoi Storfa Ymbelydredd Islawr Adeilad Robinson ar gyfer ei dymchwel yn ddiweddarach yn y flwyddyn (cofnod 16047);
- Roedd adolygiad wedi'i gynnal o Asesiad Risg Radon y Brifysgol, a nodwyd amrywiol gamau gweithredu yn ymwneud â'r Neuaddau Preswyl a Ffermdy Henfaes (cofnod 16048);
- Roedd yr Is-bwyllgor wedi derbyn adroddiadau'n ymwneud â ffynonellau agored o ymbelydredd, ac ar y defnydd o belydrau-X (cofnodion 16049 a 16050);
- Derbyniwyd diweddariad mewn perthynas â'r Sefydliad Dyfodol Niwclear, yn nodi bod y Sefydliad bellach yn Gyfleuster Niwclear Cymwys gyda Gweithrediadau Cyfyngedig, ac yn cael ei arolygu gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear; a
- Derbyniwyd adroddiad ynghylch y defnydd o laserau mewn gwahanol leoliadau ar gampws y Brifysgol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-bwyllgor am eu gwaith diwyd parhaus yn y maes hwn.

**Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol**

**Nodwyd** Nododd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol a gynhaliwyd 24 Ionawr 2022. Tynnwyd sylw'r aelodau yn benodol at y pwyntiau canlynol:

- Cynhaliwyd Archwiliad ac Adolygiad Bioberyglon a nodwyd nifer o ddiweddariadau (cofnod 16049);
- Derbyniwyd diweddariad ar waith gwyliadwriaeth iechyd (cofnod 16050);
- Rhoddwyd gwybod i'r Is-bwyllgor am y damweiniau a digwyddiadau perthnasol yn ystod 2021, a nodwyd nifer o ddigwyddiadau penodol (cofnod 16051); ac
- Roedd adroddiad ar waith yn ymwneud ag organebau a addaswyd yn enetig ar y gweill.

Yn dilyn cwestiwn gan yr Athro White, amlinellodd Dr Latchford y prosesau sydd ar waith yn y Brifysgol mewn perthynas â gwaith yn ymwneud ag anifeiliaid.

Croesawodd y Cadeirydd y sicrwydd a gynigiwyd i'r Pwyllgor gan y ddau Is-bwyllgor.